**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol**
**10 Gorffennaf 2019**
**Prifysgol Caerdydd**

**Agenda / Materion a Drafodwyd:**

1. Y diweddaraf am y Bil
2. Y diweddaraf gan Randdeiliaid am weithgarwch yn ymwneud â'r Bil
3. Y diweddaraf am gyfathrebu
4. Ymchwil a Data
5. Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc – trafodaeth / cyngor a chyfraniad posibl gan randdeiliaid

**Camau Gweithredu / Penderfyniadau:**

- Bydd Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystyried sut gellir bwydo barn rhieni i'r Grŵp Gweithredu Strategol.
- Pe bai rhanddeiliaid eisiau gwneud defnydd o ddeunyddiau cyfathrebu LlC – e.e. gwybodaeth/erthyglau ar gyfer gwefannau neu gylchlythyrau – dylent roi gwybod i LlC.
- Cynigiodd Barnardo's Cymru a'r NSPCC helpu pe bai angen rhieni ar gyfer grwpiau ffocws yn ystod datblygiad yr ymgyrch.
- Cafwyd consensws cyffredinol y dylai'r gwaith o godi ymwybyddiaeth ymhlith plant gael ei wreiddio yng nghyd-destun ehangach hawliau plant / gweithgarwch parhaus / rhaglenni parhaus – y neges gyffredinol oedd y dylid cadw pethau'n syml. Cytunwyd y bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol yn cynghori LlC ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc.
- Dylai'r rhanddeiliaid rannu unrhyw adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol o ran ymgysylltu â phlant, sef adnoddau sydd wedi deillio o brosiectau ac ymgyrchoedd blaenorol.
- Dylai LlC rannu gwybodaeth bellach am y broses sydd ynghlwm wrth Gyfnod 3 a Chyfnod 4.
- Dylai LlC rannu sleidiau cyflwyno'n ymwneud ag arolwg sylfaenol 2018 ar agwedd y cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol.
- Dylai swyddfa'r Comisiynydd Plant rannu gwybodaeth am ddulliau ymchwil a gwerthuso.
- Dylai LlC gynnal trafodaeth bellach gyda Plant yng Nghymru ynglŷn â digwyddiad sydd ar fin cael ei gynnal gyda phlant a phobl ifanc, gan drafod sut i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc.